

Asesu ar Gyfer Dysgu

Saturday, January 4, 2020 7:29 PM



Blwyddyn 8
- Gwyrdd ...

Cynllun Gwers Blwyddyn 8 – 29/11/2019

Testun y wers hon oedd edrych i mewn i ddwy stori creu'r byd gwahanol sef stori Fwdhaidd a theori

William Paley. Yn y wers hon, defnyddiais wahanol dechnegau er mwyn cyflwyno'r storiâu mewn

gwahanol ffyrdd. Dangosir mewn ffyrdd o gartŵn a ffyrdd o ddarllen a deall. Am yr hyn defnyddiais i

dechnegau asesu ar gyfer dysgu gwahanol i werthuso os mae'r disgyblion yn deall y storiâu i gyd.

Gwelir hyn yn bennaf wrth edrych ar y grid a chyflwynwyd ynglŷn â barnau'r disgyblion a'r rhesymau

a rhoddir tu ôl.



Word -
Pupil Exa...

Llun gwaith disgybl blwyddyn 9 – 2/12/2019

Testun y wers hon oedd dioddefaint. Am ddechreuad yr uned mae'r disgyblion yn cael rhestr o eiriau

allweddol ac am yr hyn mae rhaid iddynt gysylltu'r gair cywir efo'r esboniad. Mae'r llun hwn yn

dangos asesu ar gyfer dysgu oherwydd cymerodd y disgyblion rhan yn asesu cyfoedion. Gwelir yr hyn

yn ymddangos efo beiro gwyrdd a llofnod y disgybl ar y gwaith.



Panku -
pupil exa...

Llun gwaith disgybl Blwyddyn 8 – 6/12/2019

Testun y wers hon oedd stori creu Panku. Mae'r llun uchod yn dangos gwaith disgybl ym mlwyddyn 8

ar Panku. Wnaeth y dosbarth gwylio fideo ynglŷn â stori creu Panku ac roedd rhaid ysgrifennu'r prif

ffeithiau sy'n ymwneud efo'r stori yn ei lyfrau. Roedd yr hawl ganddynt i'w neud yn Saesneg cyntaf.

Cymerodd y disgyblion yna rhan mewn hunan asesu wrth iddynt gyfieithu ei waith ysgrifenedig i'r

Gymraeg yn feiro gwyrdd.

Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd

Saturday, January 4, 2020 7:30 PM



DCF x2

Llun o daflen cymhwysedd digidol blwyddyn 7 – 21/11/2019

Testun y wers hon oedd Radicaleiddio. Mae'r daflen hon yn cael ei gludo i mewn i lyfrau disgyblion

er mwyn dangos eu bod wedi gwneud gwaith ar gyfrifiaduron. Felly, mae'r hyn yn rhoi tystiolaeth ac

yn esbonio'r gwaith mae disgyblion wedi gwneud wrth feddwl am gyfrifoldeb trawsgwricwlaidd

cymhwysedd digidol.



Dioddefaint
21.11.19

Cynllun gwers Blwyddyn 9 – 21/11/2019

Testun y wers hon oedd dioddefaint. Mae'r wers hon yn cysylltu yn bennaf efo llinyn llythrennedd

wrth ystyried cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd. Gwelir hyn yn bennaf yn y cynllun gwers wrth i'r

disgyblion cymryd rhan yn ysgrifennu ystyron.



Blwyddyn 7
- Green - ...

Cynllun gwers Blwyddyn 7 – 5/12/2019

Testun y wers hon oedd Diwali. Mae'r cynllun wers hwn yn dangos bod agweddau o'r wers ei hun yn

cysylltu efo'r llinyn rhifedd wrth ymwneud efo cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd. Mae hyn yn

ymddangos wrth i'r disgyblion llenwi mewn strip cartŵn yn y drefn gywir.

Dysgu Uniongyrchol

Saturday, January 4, 2020 7:30 PM



Dioddefaint
19.11.2019

Cynllun gwers Blwyddyn 9 – 19/11/2019

Sail y wers hon oedd sut mae Bwdhyddion yn ymateb i ddioddefaint. Mae'r hyn yn dangos dysgu

uniongyrchol am yr oedd rhaid esbonio yn drylwyr y 4 Gwirionedd Urddasol a'r Llwybr Wythblyg. Nid

oedd y grŵp o ddisgyblion hyn wedi dod ar ei draws o flaen ac roedd rhaid ei ddysgu mewn ffordd

uniongyrchol.



Dioddefaint
3 - Coch

Cyllun gwers Blwyddyn 9 – 03/12/2019

Sail y wers hon oedd sut mae Cristnogion yn ymateb i ddioddefaint. Mae'r wers cynllun hon yn

dangos dysgu uniongyrchol wrth edrych iddynt edrych ar dopig newydd. Gwelir bod y dosbarth hwn

yn set fwy gwan sy'n buddio o ddysgu uniongyrchol fel dosbarth cyfan.



Blwyddyn 7
- Green - ...

Cynllun gwers Blwyddyn 7 – 5/12/2019

Testun y wers hon oedd Diwali. Mae'r cynllun gwers hwn yn dangos dysgu uniongyrchol wrth iddo

dangos dechreuad testun newydd. Nid oedd y disgyblion wedi dod ar draws y topig o flaen ac

oherwydd hyn, defnyddiwyd dysgu uniongyrchol er mwyn esbonio ei chefnidir.

Adfyfyrio

Saturday, January 4, 2020 7:30 PM

Am yr aseiniad hwn, yr wyf wedi paratoi portffolio sy'n cyfleu adfyfyrio beirniadol, yn

bennaf yn yr adran hon, am gynnydd a wnaed o ran cynllunio wrth weithredu tair

egwyddor addysgeg. Ffocws y gwaith bydd ar ddewis o dair egwyddor addysgeg

Donaldson a dywed yn ei adroddiad Dyfodol Llwyddiannus (2015). Y tair egwyddor

addysgeg fe wnes i ddewis yw'r canlynol; asesu ar gyfer dysgu, cyfrifoldebau

trawsgwricwlaidd a dysgu uniongyrchol. Gobeithiaf bydd y tair egwyddor hyn yn

dangos fy nghynnydd wrth i mi adfyfyrio ar brofiadau addysgu yn ysgol X. Wrth

wneud hyn bydd yn dangos sut wnes i geisio gweithredu'r tair egwyddor uchod a sut

yr wyf wedi gwneud cynnydd wrth ddefnyddio'r egwyddorion. Fe wnes i ddewis

asesu ar gyfer dysgu am un o fy egwyddorion am iddo dangos gwahanol dechnegau

yr wyf wedi datblygu er mwyn asesu a dadansoddi deallusrwydd disgyblion am y

topig. Ynghyd a hyn, fe wnes i ddewis cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd er mwyn

dangos cynnydd ac effaith yr wyf wedi rhoi i mewn er mwyn ychwanegu

llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol i mewn i fy ngwersi. Yn olaf, fe wnes i

ddewis asesu uniongyrchol am iddo gyda'r gallu i ddangos cynnydd mwy eang yn

ystod fy mhrofiad cyntaf.

Wrth edrych ar lenyddiaeth ynglŷn ag addysgu a dysgu effeithiol wrth ffocysu

yn benodol ar yr egwyddorion addysgeg uchod gwelir bod sawl cymhariaeth ar gael.

Mae asesu yn rhan annatod o fywyd ysgol. Gwelir hyn yn bennaf wrth feddwl am

brofion blynyddol disgyblion. Er i hyn, nid yw'r asesu hyn yn effeithiol i ddangos

cynnydd neu ddeallusrwydd disgyblion pob dydd tu fewn y dosbarth. Dyma pam mae

asesu ar gyfer dysgu cyson yn egwyddor bwysig wrth baratoi gwersi. Dywed Sally

Brown, "Assessment is probably the most important thing we can do to help our

students learn." (2005: p.p. 81). Mae asesu ar gyfer dysgu yn holl bwysig i yrfa ysgol

disgyblion ac i'w dyfodol heb asesu ar gyfer dysgu nid yw'n bosib, fel athro, i wybod

beth yn union mae'r disgyblion yn deall. Mae John Gardner yn cyfoethogi'r hyn

dywed Sally gan ddweud bod , “Studies over many years have shown...assessment is an important aspect of teachers’ classroom work and that attention to improving its practice can enhance the learners achievements.” (2012: p.p.11). Er bod yn ôl y ddwy uchod bod asesu yn holl bwysig, mae rhaid bod yn ofalus am ba asesiadau sy’n cael ei chynnwys yn y dosbarth a phryd y maent yn cael eu rhoi. Ymhelaethodd Sally Brown ar yr hyn gan ddweud, “...assessment needs to be ‘fit-for-purpose’;...it should enable evaluation of the extent to which learners have learned and the extent to which they can demonstrate that learning.” (2005: p.p. 81). Ni does pwynt rhoi asesiadau ar gyfer dysgu i ddisgyblion os nad ydynt yn union dangos ei deallusrwydd neu ymwybyddiaeth o’r hyn a dysgwyd. Gellir ehangu'r hyn gan edrych ar beth ddywed Richard J Stiggins yn esbonio ei fod yn amhosib cynyddu deallusrwydd ac ymwybyddiaeth disgyblion yn ei waith os mae dim ond aseiniadau a phroffion sy’n cael ei rhoi i ddisgyblion (2002: p.p. 759). Mae’n holl bwysig i ystyried y wahanol ffyrdd mae athrawon yn asesu disgyblion oherwydd gall yr hyn cael effaith

safonol ar hyder a chymhelliant disgyblion i wellhau a gwneud cynnydd yn eu haddysg. Esboniodd Stiggins a Stephen Chappus yr hyn, "Classroom assessment that involves students in the process and focuses on increasing learning can motivate rather than merely measure students." (2002: p.p. 40). Ac mae Jane Nicholas yn atgyfnerthu'r safbwynt uchod gan ddweud bod asesu ar gyfer dysgu yn magu hyder disgyblion wrth feddwl am eu gwaith (2017: p.p. Abstract). Felly, wrth iddynt hwy ystyried y safbwyntiau llenyddol uchod gwelir bod asesu ar gyfer dysgu yn chwarae rhan hanfodol tu fewn i fywyd pob dydd yr ystafell dosbarth ac yn gallu cael effaith positif ar sawl agwedd megis, deallusrwydd a hyder disgyblion.

Y dystiolaeth yr wyf wedi cynnwys er mwyn dangos cynnydd wrth ymdrin efo asesu ar gyfer dysgu yw cynllun gwrs dosbarth blwyddyn wyth, llun gwaith disgybl blwyddyn naw a llun gwaith disgybl blwyddyn 8. Mae'r tri darn o dystiolaeth yn dangos cynnydd wrth iddynt hwy ymdrin efo asesu ar gyfer dysgu. Wrth edrych ar gynllun gwrs blwyddyn 8 gwelwn fy mod i wedi defnyddio dau weithgaredd

gwahanol er mwyn asesu gwaith disgyblion ar gyfer dysgu. Un agwedd oedd paru i
fyny brawddegau efo lluniau cartŵn er mwyn dangos deallusrwydd o'r stori ac y llall
oedd gweithgaredd darllen a deall ac fe wnaeth y dosbarth gwirio ar ôl gwneud pob
gweithgaredd. Er i hyn, wrth edrych ar yr asesu ar gyfer dysgu nid oedd yn hollol
lwyddiannus i weld pa ddisgyblion a oedd yn cael trafferth efo cynnwys y gwaith.
Oherwydd hyn, teimlaf y gall y disgyblion wedi gallu buddio o weithio efo'i gilydd.
Mae Boud et al. yn awgrymu'r hyn gan ddweud, "...peer learning refers to the use of
teaching and learning strategies in which students learn with and from each other
without the immediate intervention of a teacher." (1999: p.p. 413 – 416). Felly, er
mwyn gwneud cynnydd gellir annog y disgyblion i wirio efo ei chyfoedion er mwyn
iddynt ddysgu wrth ei gilydd cyn symud ymlaen efo'r gwaith. Mae'r ail ddarn o
dystiolaeth yn dangos gwaith disgybl blwyddyn naw. Dangosir y dystiolaeth hon
asesu ar gyfer dysgu wrth iddo ddangos gwaith asesu cyfoedion. Gwelir hyn trwy
feiro gwyrdd a llofnod ar ddiwedd y gwaith. Wrth asesu'r hyn yn feirniadol, gwelir bod

cynnydd yn fy nhechneg o asesu ar gyfer dysgu wrth i ddisgyblion dysgu o waith ei gilydd gan gywiro camgymeriadau. Er i hyn, nid yw hyn yn rhoi argraff gyflawn i finnau fel athro wrth ystyried deallusrwydd y disgyblion o'r gwaith a wnaed. Y darn o dystiolaeth olaf a rhoddir am asesu ar gyfer dysgu yw llun o waith disgybl blwyddyn wyth. Gwelir yn y llun hwn darnau o wybodaeth mae'r disgybl wedi cofnodi am un stori creu yn Saesneg. Mae'r dystiolaeth hon yn dangos asesu ar gyfer dysgu wrth i'r disgybl cyfieithu'r gwaith i'r Gymraeg a chywiro unrhyw wallau yn feiro gwyrdd.

Dangosir hyn, hunan asesu. Gwelir bod hyn yn dangos cynnydd yn fy nhechnegau wrth ystyried asesu ar gyfer dysgu am iddo dangos bod sgiliau hunan cywiro disgyblion yn cynyddu ynghyd efo'r disgyblion yn dysgu o wallau ei hunain. Ond, wrth ystyried yr hyn, nad ydy yn rhoi argraff sydyn i'r athro am ddeallusrwydd y disgyblion am y gwaith a wnaed. Wrth ystyried yr uchod gwelwyd bod cynnydd wrth ystyried fy mod yn ehangu'r dulliau yr wyf yn defnyddio er mwyn asesu ar gyfer dysgu.

Mae'r newid i ddysgu trwy gyfuno agweddau o bynciau eraill yn tyfu wrth iddynt hwy ystyried addysg. Gelwir hyn yn drawsgwricwlaidd. Eglurhad Jonathan Savage o agweddau trawsgwricwlaidd yw'r hyn, "*A cross-curricular approach to teaching is characterised by sensitivity towards, and a synthesis of, knowledge, skills and understandings from various subject areas.*" Gwelir wrth edrych ar lenyddiaeth bod yna cryfderau a gwendidau ar gael i athrawon wrth geisio paratoi gwersi sy'n cyfateb efo cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd. Mae Denis Hayes ar y fwyaf yn cytuno efo'r angen i ychwanegu agweddau trawsgwricwlaidd i mewn i addysg pob dydd disgyblion. Rhoddir rhesymau am yr hyn yn ei newyddiadur, *The Seductive Charms of a cross-curricular approach* (2010). Enghraifft o hyn yw, "... 'cross-curricular learning'...offers a creative way to develop children's knowledge, skills and understanding, while motivating them to learn through stimulating, interconnected topics." (p.p.383). Hynny yw, wrth i athrawon cyfuno gwahanol bynciau i mewn i un pwnc penodol y bydd yn magu gwybodaeth disgyblion am y gwaith ac yn datblygu ei

sgiliau a chryfhau ei deallusrwydd. Er i hyn, mae Chris Rowley a Hillary Cooper yn anghytuno efo cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd am iddo, "...raises real issues for many teachers, particularly in finding a balance between teacher-led perceptions of how subjects link and others' understanding of those links." (2009: p.p. 2). Nid oes pwynt ceisio cyfuno pynciau efo ei gilydd os nad ydy yn gwneud synnwyr. Yn ôl yr uchod, os nad yw'r cyfuniad yn buddio disgyblion yn ei waith wedyn nid oes angen i'w neud. Er i hyn, Esboniodd Donaldson (2015) bod yna nawr cyfrifoldeb gan athrawon i integreiddio pynciau o adrannau eraill mewn gwersi. Yn bennaf, gwelwn y pwyslais ar ychwanegu agweddau rhifedd, llythrennedd a chymhwysedd digidol i mewn i wersi. Er i hyn, nid yw hyn yn bosib am bob gwर्स a chyflwynwyd fel athro. Bydd y traethawd hwn yn pwysleisio'r tri chyfrifoldeb trawsgwricwlaidd rhifedd, llythrennedd a chymhwysedd digidol er nad yw llenyddiaeth yn union canolbwyntio ar y rhain. Cytunwyd Jonathan Barnes efo cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd am yn ei farn ef, "Our experiences of the world is cross-curricular. Everything that surrounds us in

the physical world can be seen and understood from multiple perspectives.” (2015:

p.p.1). Hynny yw, bod rhaid nawr dysgu pynciau sbesiffig o safbwyntiau gwahanol

gan integreiddio sgiliau perthnasol i mewn i'r wers. Felly, wrth edrych ar lenyddiaeth

cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd gellir dweud bod yna gwendidau a chryfderau wrth ei

chynnwys mewn gwersi. Ond, wrth ystyried adroddiad Donaldson a'r ychwanegiad o

rifedd, llythrennedd a chymhwysedd digidol ar draws y cwricwlwm y mae'n galluogi

disgyblion i gyfoethogi ei sgiliau a deallusrwydd o'r pwnc.

Gwelir tair rhan o dystiolaeth am gyfrifoldebau trawsgwricwlaidd. Cynnwys y rhain yw

llun o daflen cymhwysedd digidol i ddangos bod y disgyblion wedi gwneud y gwaith,

cynllun gwrs blwyddyn naw a chynllun gwrs blwyddyn saith. Mae'r dystiolaeth

gyntaf yn dangos un o fy ngwrsi cyntaf a chyflwynwyd yn ystod fy mhrofiad. Gwrs

a oedd yn cysylltu efo llinyn cymhwysedd digidol oedd yr hyn, sy'n holl bwysig yn y

byd heddiw sy'n datblygu yn dechnolegol ac sy'n cael ei adnabod fel un o'r prif

agweddau o ddysgu (Ferrari: 2008). Gwelir bod yn agwedd o addysgu da wrth

ddefnyddio cymhwysedd digidol fel rhan o wers am iddo ddysgu disgyblion sgiliau newydd megis ymchwilio. Er i hyn, gwelir bod problemau gallu digwydd oherwydd y defnydd o gymhwysedd digidol yn wersi wrth i rai disgyblion ei weld yn anodd gweithio cyfrifiadur neu nad oes digonedd ar gael. Er i hyn, mae'n bwysig i'w chynnwys tu fewn i wersi os mae'n briodol i'r gwaith a thopig. Am fy ail dystiolaeth dangosir cynllun gwers blwyddyn naw sy'n cysylltu efo'r llinyn llythrennedd yn nhermau cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd. Am y dasg llythrennedd roedd rhaid i flwyddyn naw ysgrifennu yn ystyron yn ei wers. Gwelir bod hyn yn gynnydd wrth feddwl am gyfrifoldebau trawsgwricwlaidd am fy mod yn defnyddio gwahanol gyfrifoldebau er mwyn cynyddu sgiliau disgyblion ar draws y cwricwlwm. Yn olaf, dangosaf dystiolaeth o gyfrifoldebau trawsgwricwlaidd am rifiedd yng nghynllun wers blwyddyn saith. Dangosir hyn trwy'r defnydd o strip cartŵn a oedd rhaid trefnu wrth ddigwyddiadau ŵyl. Wrth asesu yn feirniadol am y defnydd o rifiedd yn yr ystyr hon, fe welwn beth cynnydd wrth i wers ei chynnwys. Ond, wrth ystyried gofynion rhifedd

fe deimlaf fy mod gen i allu i'w chyflwyno mewn ffordd sy'n gwthio cynnydd y disgyblion yn y sgil rhifedd yn y wers mewn ffordd well. Er i hyn, wrth ystyried fy mhrif bwnc y bydd cynnwys rhifedd fel ei rhan yn anodd ac ni welaf fod ychwanegu rhifedd i wers er mwyn ei wneud yn buddio disgyblion. Bydd rhaid felly meddwl am ffyrdd a gellir cynnwys rhifedd sy'n lles. Oni bai i hyn, gwelwyd cynnydd wrth ystyried cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd am fy mod yn ceisio ei chynnwys i mewn i wersi sy'n cyfateb efo gofynion y llywodraeth ac sy'n buddio cynnydd disgyblion.

Yn trydydd, edrychaf ar lenyddiaeth fy trydedd egwyddor sef dysgu uniongyrchol.

Dysgu uniongyrchol yw bod yr athro yn sefyll o flaen y dosbarth ac yn dysgu disgyblion yr hyn mae angen heb ddefnyddio technegau gwahanol; mae'r athro yn sefyll o flaen y dosbarth ac yn rhoi cyfarwyddiadau. Ystyried nifer o academyddion dysgu uniongyrchol neu 'direct instruction' fel agwedd traddodiadol o ddysgu (Hattie, 2012). Fel yr egwyddorion uchod, mae dysgu uniongyrchol yn dod efo cryfderau a gwendidau ac mae'r llenyddiaeth yn portreadu'r hyn. Esboniodd Lucie Renard un o'r

problemau a welwyd wrth ddefnyddio dysgu uniongyrchol, "...not all students benefit from listening to a teacher talk all day, and not all lessons are best taught through direct instruction." (2019). Felly, er bod dysgu uniongyrchol yn rhan annatod o ddysgu nid yw'n hollol lwyddiannus i bob disgybl. Gall hyn digwydd am sawl rheswm megis colli diddordeb y disgyblion gyd-fynd efo'r uchod mae Coe et al hefyd yn gweld bod angen deallusrwydd pwnc cryf gan athrawon er mwyn dosbarthu dysgu uniongyrchol yn llwyddiannus ac nid yw hyn yn bosib wrth i ni ystyried bod sawl athro yn dysgu tu fas i'w meysydd pwnc (2014). Er i'r uchod mae Westwood yn awgrymu bod angen dysgu uniongyrchol er mwyn gallu trosglwyddo gwybodaeth newydd i ddisgyblion mewn ffordd effeithiol (2008). Heb ddysgu uniongyrchol ni fydd yn bosib i ddisgyblion deall y gwaith a rhoddir iddynt. Wrth edrych ar y ffynonellau sydd i'w gael wrth edrych ar ddysgu uniongyrchol gellir dweud er bod yn rhan annatod o ddysgu nid ydy yn gweithio trwy'r amser ac oherwydd hyn mae'r rhain newid technegau er mwyn sicrhau cynnydd pob disgybl yn y dosbarth.

Yn olaf, am ddysgu uniongyrchol fe wnes i gynnwys tri darn o dystiolaeth mewn ffyrdd cynlluniau gwersi. Am fy nhystiolaeth gyntaf gwelir cynllun gwers blwyddyn naw ar sut mae Bwdhyddion yn ymateb i ddioddefaint. Mae hyn yn dangos dysgu uniongyrchol am iddo gyflwyno topig newydd i'r disgyblion. Yn ystod y wers hon, fe wnes i gyflwyno pwynt pŵer i ddisgyblion yn esbonio'r gwahanol dechnegau y mae Bwdhyddion yn ymateb i ddioddefaint. Gwelwyd yn arfer o ddysgu da wrth ei gyflwyno yn uniongyrchol am yr oedd rhaid esbonio agweddau o grefydd newydd nad oedd y disgyblion wedi dod ar draws. Hefyd, fel mae nifer o academyddion, ei fod yn dechneg dda o wneud hyn. Gwelir cynllun gwaith blwyddyn naw fel fy ail dystiolaeth ond ar y topig o sut mae Cristnogion yn ymateb i ddioddefaint. Er oedd gwybodaeth flaenorol o'r disgyblion ar y topig hwn yr oedd yn cyflwyno agwedd newydd nad oedd y disgyblion wedi dod o draws o flaen. Ond, wrth asesu yn feirniadol gan edrych ar gynnydd fe welwyd cynnydd yn yr ystyr hon oherwydd fe ddefnyddiais dechnegau gwahanol er mwyn ei chyflwyno trwy ddysgu uniongyrchol.

Gwelir hyn megis clipiau fideo a cherdd i'w neud. Trwy wneud hyn yn ystod fy nysgu uniongyrchol fe welwyd bod disgyblion yn cymryd mwy o sylw ar beth sy'n cael ei chyflwyno iddynt i gymharu efo fy ngwers gyntaf. Hefyd, gwelwyd cynnydd wrth i ddisgyblion cymryd diddordeb yn yr hyn a ddysgwyd. Am fy nhystiolaeth olaf fe welir cynllun gwers blwyddyn saith. Fel yr uchod, yr oeddent yn dechrau ar adran newydd o waith nad oeddent wedi cael profiad o flaen. Wrth ei asesu yn feirniadol gwelir wrth gyflwyno'r topig trwy ddysgu uniongyrchol fe wnaeth helpu'r disgyblion i ddeall y gwaith yn well ac yn ei pharatoi am y wers a dilynwyd. Fe welir cynnydd yn yr ystyr hyn wrth iddo i integreiddio technegau newydd megis clipiau fideo ac wrth gael y disgyblion i gymryd rhan yn y dysgu trwy ddarllen allan o'r pwerbwynt. Felly wrth ystyried dysgu uniongyrchol fe welwyd cynnydd wrth i mi ddechrau dysgu mwy ar draws y cyfnod cyntaf.

Er mwyn ceisio datblygu fy nghynnydd ymhellach am asesu ar gyfer dysgu bydd

rhaidd iddo i integreiddio sawl techneg wahanol o fewn y dosbarth er mwyn sicrhau

cynnydd a deallusrwydd y disgyblion am y topig a rhoddir. I wneud y cynnydd hwn, byddaf yn ymchwilio i mewn i fwy o dechnegau a'i dreialu efo dosbarthiadau priodol er mwyn weld os maent yn cael effaith ar yr hyn mae'r disgyblion yn eu dysgu. Yna, am gyfrifoldebau trawsgwricwlaidd, i wneud cynnydd yr wyf am feddwl yn ddyfnach am yr hyn yr wyf yn gallu ychwanegu i mewn i wersi gwahanol a dim ond i'w neud pryd y mae'n briodol. Er mwyn gwneud yr hyn, yr wyf am siarad efo cydlynnydd rhifedd, llythrennedd a chymhwysedd digidol er mwyn sicrhau bod yr hyn yr wyf am gyflwyno yn briodol i'r dysgu ac addysgu sy'n cael ei wneud yn y dosbarth. I geisio datblygu fy nghynnydd wrth ystyried dysgu uniongyrchol yr wyf am barhau i integreiddio technegau gwahanol o wneud hyn er mwyn sicrhau diddordeb a deallusrwydd disgyblion. Er mwyn ei ddatblygu yn ehangach yr wyf am ymchwilio i mewn i dechnegau gwahanol o wneud hyn. Felly i gasglu, er fy mod wedi dangos cynnydd dros y tair egwyddor sef asesu ar gyfer dysgu, cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd a dysgu uniongyrchol yr wyf am barhau i weithio er mwyn dangos

cynnydd ymhellach.
Geiriau: 2744

- Barnes, Jonathan (2015) *Cross-Curricular Learning* 3-14. SAGE.
- Baumann, James F (1984) The Effectiveness of a Direct Instruction Paradigm for Teaching Main Idea Comprehension. *Reading Research Quarterly*, Vol. 20, No.1 pp. 93-115
- Boud, David & Falchikov, Nancy (2007) *Rethinking Assessment in Higher Education: Learning for the Longer Term*. Routledge.
- Boud, David, Cohen, Ruth & Sampson, Jane (1999) Peer Learning and Assessment, *Assessment & Evaluation in Higher Education*, 24:4, 413 – 426
- Brown, Sally (2005) Assessment for Learning. *Learning and Teaching in Higher Education* (1). Pp.81 – 89.
- Coe, R., Aloisi, C., Higgin, S., Major, E. (2014) What makes great teaching. Available at <https://www.suttontrust.com/wp-content/uploads/2014/What-Makes-Great-Teaching-REPORT.pdf> (Accessed: January 5th 2020).
- Donaldson, Graham (2015) Successful Futures: Independent Review of Curriculum and Assessment Arrangements in Wales. *Llywodraeth Cymru*
- Gardner, John (2012) *Assessment and Learning*. SAGE.
- Hattie, J. (2012) *Visible Learning for Teachers: Maximising impact on learning*. London: Routledge.
- Hayes, Denis (2010) The Seductive Charms of a cross-curricular approach. *Education*, 3-13, 38:4, 381-387
- Johnson, Ben (2013) Deeper Learning: Why Cross-Curricular Teaching is Essential. *Edutopia*
- Nicholas, Jane (2017) 'Dylanwad y Profion Darllen Cenedlaethol ar Addysgu a Dysgu Strategaethau Darllen – Astudiaethau Achos mewn Un Ysgol Uwchradd Gymraeg' *Wales Journal of Education* Vol. 19, Number 2.
- Renard, Lucie (2019) Direct instruction – A practical guide to effective teaching. *Bookwidgets*
- Rowley, Chris & Cooper, Hillary (2009) *Cross-curricular Approaches to Teaching and Learning*. SAGE
- Savage, Jonathan (2011) *Cross-Curricular Teaching and Learning in the Secondary School*. Routledge
- Stiggins, Richard J & Chappuis Stephen (2002) Classroom Assessment for Learning. *Educational Leadership*, Volume 60, Number 1. Pages 40 – 43
- Stiggins, Richard J (2002) Assessment Crisis: The Absence of Assessment FOR Learning. *Phi Delta Kappan*. 758 – 765
- Westwood, S (2008) *What Teachers need to know about Teaching Methods*. ACER PRESS.

1904704 Erin Haf Tinnuche Pugh ECAD6008C

Saturday, January 4, 2020 7:28 PM

Enw: Erin Haf Tinnuche Pugh

Rhif Myfyriwr: 1904704

Llwybr: Uwchradd

Linc i'r llyfryn OneNote: https://uowtsd-my.sharepoint.com/personal/1904704_student_uwtsd_ac_uk/_layouts/15/WopiFrame.aspx?sourcedoc={05a2c385-ca7d-4b32-9f88-4c264fbfc41d}&action=edit&wd=target%28Overview.one%7C914ca2b6-76b0-47b0-99ef-51fc3b79f0a8%2F1904704%20Erin%20Haf%20Tinnuche%20Pugh%20ECAD6008C%7C50ee0909-cdc4-4e31-987e-340a88441dbb%2F%29